**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

16 Gorffennaf 2021

Annwyl Mark

Craffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd - Protocol rhwng Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Senedd Cymru

Fe wnaeth y Pwyllgor gwrdd yr wythnos hon i drafod ein ffyrdd o weithio a busnes cynnar ar gyfer y Chweched Senedd, a chytuno arnynt. Cytunwyd mai un o'n blaenoriaethau cynnar yw ceisio ailsefydlu'r Protocol a roddwyd ar waith gan y Pwyllgor sy'n ein rhagflaenu yn y Bumed Senedd a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chraffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Wrth adolygu'r Protocol yn hwyr yn hydref 2020, nodaf eich bod chi wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor sy'n ein rhagflaenu i groesawu cyfraniad cadarnhaol y Protocol at weithio effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Byddwn yn sicr yn croesawu Protocol sy'n addas at y diben yn y Chweched Senedd, gan barhau i hwyluso perthynas waith gynhyrchiol o'r fath.

Fy mhwrpas wrth ysgrifennu felly yw ceisio eich cytundeb mewn egwyddor i atgyfodi'r Protocol ac os felly, awgrymu bod y tîm Clercio yn cysylltu â swyddogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru i ymchwilio i unrhyw newidiadau a allai fod yn angenrheidiol.  Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd